**DYDDIEDIG XX XX 202X**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# (SMITHY LANE, BWCLE / EWLOE GREEN)
# (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU)
# 202X


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog**

**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug,**

**Alltami,**

**Yr Wyddgrug.**

**CH7 6LG**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**(SMITHY LANE, BWCLE / EWLOE GREEN)**

**(GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU)**

**202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 1, 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf Gorchymyn 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Gwahardd unrhyw cerbyd modur heblaw am y rhai sydd angen mynediad a beicwyr i yrru ar hyd cyfan Smithy Lane, Bwcle / Ewloe Green.

2. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y rhan honno o'r ffordd a nodir yn yr Erthygl, os yw'r cerbyd:-

a) Am gael mynediad i eiddo cyfagos;
b) Yn gerbyd y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans neu'r Heddlu pan fo argyfwng;
c) Yn feic pedalau, nad yw'n gerbyd modur;
d) Yn ymwneud â'r canlynol-
i) Cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu rhan o'r ffordd a nodir;
ii) Gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o unrhyw rwydwaith cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003;
iii) Gweithredoedd adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
e) Gwasanaethu ar ran awdurdod lleol, cwmni gwasanaethau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;
f) Dylid defnyddio'r cerbyd at ddibenion danfon neu gasglu pecynnau post fel y diffinnir yn Adran 125 Deddf Gwasanaethau Post 2000.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw Reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli’r Gorchymyn hwn gan ei bod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XX 202X a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Smithy Lane, Bwcle / Ewloe Green) (Gwahardd Gyrru) (Heblaw Ar Gyfer Mynediad a Beiciau Pedalau) 202X

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** **)**
**CYNGOR SIR Y FFLINT** **)**
yn y fan hon )
ar XX XX 202X )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**UWCH GYFREITHIWR**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**